

# Cyllid Swyddfa a Chyfathrebu: Cymhariaeth ryngwladol

Ionawr 2024

Yn y papur hwn, ystyrir sut y mae deddfwrfeydd ledled y DU ac yn rhyngwladol yn darparu cymorth i seneddwyr ar gyfer swyddfeydd etholaethol a gweithgareddau cyfathrebu ac ymgysylltu ag etholwyr.

Mae'r papur hwn yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer adolygiad y Bwrdd Taliadau Annibynnol o ffyrdd o weithio a'r a'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr. Mae'n gyffredin mewn llawer o'r enghreifftiau a amlinellir yn yr adroddiad hwn i seneddau ddarparu cymorth i aelodau gyflawni eu dyletswyddau etholaethol, er bod math, graddfa a lefel yr amodau rheoli a gymhwysir i'r cymorth hwn yn amrywio'n sylweddol.

Fel gydag unrhyw gymhariaeth ryngwladol, o gofio'r cyd-destunau gwahanol y mae seneddau'n gweithredu ynddynt (gan gynnwys gwahaniaethau economaidd a gwleidyddol), mae cymharu'n uniongyrchol â gwerth ariannol cymorth o'r fath yn heriol. Fodd bynnag, gall y gymhariaeth hon ategu trafodaethau am y model cymorth y gall fod ar Aelodau o'r Senedd ei angen yn y Seithfed Senedd a'r egwyddorion a ddylai fod yn sail i gynllunio ac adolygu'r cymorth hwn.

# Cynnwys

<b>1. Crynodeb Gweithredol.....</b>	<b>4</b>
<b>2. Cyflwyniad.....</b>	<b>8</b>
Adolygiadau thematig .....	8
<b>3. Cymorth Swyddfa a Chyfathrebu: Deddfwrfeydd y DU.....</b>	<b>10</b>
Y Senedd.....	10
Prydlesu swyddfa.....	11
Costau polisi, ymchwil a chyfathrebu.....	11
Senedd y DU.....	12
Prydlesu swyddfa.....	12
Senedd yr Alban.....	13
Trefniadau ar gyfer Aelodau Rhanbarthol.....	14
Darpariaeth ymgysylltu .....	15
Cynulliad Gogledd Iwerddon .....	16
Cymhariaeth sydyn o ddeddfwrfeydd y DU.....	18
<b>4. Cymorth Swyddfa a Chyfathrebu: Enghreifftiau rhyngwladol.....</b>	<b>19</b>
Oireachtas – Iwerddon.....	19
Gwariant cymwys.....	20
Gweithredu'r Lwfans Cynrychiolaeth Gyhoeddus.....	22
Adrodd ac atebolrwydd.....	22
Awstria.....	22
Yr Almaen.....	23
Seland Newydd .....	23
Rôl Gwasanaethau Seneddol .....	24
Costau cyhoeddusrwydd.....	25
Adrodd ac atebolrwydd.....	25
Canada – Tŷ'r Cyffredin .....	26

Treuliau hysbysebu .....	27
Adrodd ac atebolrwydd.....	27
<b>Senedd Awstralia .....</b>	<b>27</b>
Swyddfeydd etholaethol.....	28
Darpariaethau i ddeiliaid swyddi ychwanegol .....	29
Cyllideb Treuliau Swyddfa .....	29
Adrodd ac atebolrwydd.....	31
<b>Senedd Victoria, Awstralia.....</b>	<b>31</b>
Cyllideb Swyddfa Etholaethol a Chyfathrebu.....	31
Norwy, Denmarc, Sweden a'r Ffindir .....	34
<b>5. Casgliad .....</b>	<b>35</b>
<b>6. Atodiad A: Cyllid Cymorth Aelod Seland Newydd 2023-2025.....</b>	<b>37</b>

# 1. Crynodeb Gweithredol

Mewn llawer o systemau gwleidyddol ledled y byd, mae gwaith etholaethol yn rhan gydnabyddedig o waith seneddwr. Mae cymorth ariannol i dalu costau cynnal swyddfa etholaethol ac i ymgysylltu ag etholwyr felly yn nodwedd gyffredin mewn llawer o'r deddfwrfeydd a adolygwyd ar gyfer y papur hwn. Fodd bynnag, mae cwmpas, graddfa a model y cymorth hwn yn wahanol iawn.

Mae'n heriol cymharu'n uniongyrchol werth ariannol y cymorth a ddarperir yn yr enghreifftiau rhyngwladol, gan y bydd pob senedd yn gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'r cyd-destun economaidd y mae'n yn gweithredu ynddo. Gall y gymhariaeth hon, fodd bynnag, fod o gymorth i drafodaethau am fodel y cymorth y gall fod ei angen ar Aelodau o'r Senedd yn y Seithfed Senedd a'r egwyddorion a ddylai fod yn sail i gynllunio ac adolygu cymorth o'r fath.

Er bod y papur llawn yn rhoi crynodeb manylach o bob deddfwrfa, darperir crynodeb isod o'r themâu allweddol.

## **Beth sy'n cael ei ariannu'n gyffredin a model y cymorth hwn**

Roedd y rhan fwyaf o'r enghreifftiau a adolygwyd ar gyfer y papur hwn yn rhoi cymorth i aelodau gael swyddfa etholaethol ac i ymgysylltu â'u hetholwyr. Yr eithriadau oedd y gwledydd Nordig – Norwy, Denmarc a'r Ffindir – lle nad oedd modd dod o hyd i wybodaeth ar y gwefannau priodol am gyllidebau neu lwfansau â ffocws etholaethol. Yn seiliedig ar y deunydd darllen, mae'n ymddangos nad yw gwaith etholaethol fel a wneir yn y DU yn rhan o'r traddodiad gwleidyddol yn rhai o'r gwledydd hyn.

Mae'r deddfwrfeydd sy'n darparu cymorth yn gwneud hynny mewn nifer o ffyrdd gwahanol.

- Mae rhai'n darparu un gyllideb i dalu costau gweithredu swyddfa ac ymgymryd â gweithgarwch ymgysylltu tebyg i'r Senedd - y DU, Iwerddon a Seland Newydd.
- Mae gan eraill ddwy gyllideb, un ar gyfer costau swyddfa ac un arall i dalu am weithgarwch ymgysylltu – yr Alban, Gogledd Iwerddon a Chanada. Er bod Canada ychydig yn wahanol gan y gellir gwario cyfran o gyllideb ar 'hysbysebu' (20 y cant).
- Mae rhai deddfwrfeydd yn darparu swyddfeydd i aelodau sy'n cael eu prydlesu a'u cynnal gan wasanaethau seneddol, gyda chyllideb yn cael ei darparu i aelodau dalu costau swyddfa a gweithgarwch cyfathrebu – Awstralia a Victoria.
- Mae rhai deddfwrfeydd yn darparu un gyllideb y gall aelodau hawlio ohoni ad-daliad o'r holl gostau a ysgwyddwyd – Awstria a'r Almaen.

Mae'r Senedd yn unigryw gan y gall Aelodau gomisiynu rhywfaint o weithgarwch ymchwil drwy ddefnyddio'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr. Ni ddarperir ar gyfer hyn yn yr un o'r enghreifftiau eraill a adolygwyd.

O ran sut y mae cymorth ariannol i swyddfeydd etholaethol a chyfathrebu yn gweithredu, mae llawer yn seiliedig ar ad-dalu hawliadau am gostau gwirioneddol. Mae rhai'n gwneud hyn bob mis ac eraill bob blwyddyn. Mae lwerddon yn defnyddio dull gweithredu gwahanol. Mae Teachtaí Dála yn pennu cyllideb ar ddechrau pob blwyddyn sy'n nodi faint o'u lwfans blynyddol y mae arnynt ei angen bob mis. Telir lwfans i Teachtaí Dála bob mis, gydag unrhyw arian heb ei wario yn cael ei ad-dalu.

### **Gwahaniaethau mewn systemau etholaethol aml-aelod**

O'r enghreifftiau a adolygwyd, nid yw presenoldeb etholaethau aml-aelod o reidrwydd yn golygu gwahaniaethau sylweddol yn y math o gymorth a ddarperir i aelodau. Fodd bynnag, o bosibl yn berthnasol cyn Seithfed Senedd ddiwygiedig, yw'r ffaith bod rhai deddfwrfeydd yn ystyried y maint daearyddol a/neu nifer y pleidleiswyr cofrestredig wrth gyfrifo lefel y cymorth a gaiff yr Aelodau. Yng Nghanada, Awstralia, Seland Newydd a Victoria mae nifer y swyddfeydd y caiff aelod hawlio costau ar eu cyfer neu gael eu darparu, a'r gyllideb sydd ar gael iddo, yn gysylltiedig â maint a/neu ddwysedd pleidleiswyr ei etholaeth. Mae systemau etholiadol gwahanol ar waith ym mhob un o'r enghreifftiau hyn.

### **Cydbwysedd y cymorth rhwng cyllidebau Aelodau a gwasanaethau seneddol**

Mae cydbwysedd y cymorth rhwng cyllidebau Aelodau a chymorth gwasanaethau seneddol yn amrywio'n sylweddol ar draws yr enghreifftiau a ystyrir yn y papur. Yn enghreifftiau'r DU, mae'n ymddangos bod aelodau'n bennaf cyfrifol am sefydlu a chynnal eu swyddfeydd, gan gynnwys dod o hyd i gyngor cyfreithiol angenrheidiol. Yn Seland Newydd, mae gwasanaethau seneddol yn darparu set safonol o ddodrefn swyddfa a chyfarpar i bob aelod. Yn Awstralia a Victoria, darperir i aelodau swyddfeydd sy'n cael eu prydlesu a'u cynnal gan wasanaethau seneddol. Mae gan bob swyddfa drefn safonol, ac os oes swyddfa eisoes yn bodoli yn etholaeth aelod, caiff ei dyrannu iddo ar ôl ei ethol.

### **Lefel yr amodau rheoli a gymhwysir i brydlesi a threfn swyddfa**

Mae lefelau amrywiol o amodau rheoli a safoni yn cael eu cymhwyso i brydlesi swyddfa a swyddfeydd. Yn y DU a Chanada, mae'n ofynnol i Aelodau Seneddol drafod cynnwys cymalau penodol yn eu prydlesi. Er enghraifft, mae rhaid i Aelodau Seneddol y DU drafod cymal i'w galluogi i roi dau fis o rybudd os bydd amgylchiadau'n newid, e.e. gadael y senedd. Yng

Nghanada, mae rhaid i Aelodau Seneddol gynnwys cymalau gorfodol sy'n ymwneud â therfynu ac aseinio prydles, dull rhybudd a chael rhybudd a gofynion hygyrchedd.

Yng Nghanada, mae'n ofynnol i Aelodau Seneddol sicrhau bod gan y swyddfa o'u dewis nifer o nodweddion allweddol, gan gynnwys derbynfa, swyddfa breifat i'r Aelod ac i gyflogeion, ystafell ymolchi, nodweddion hygyrchedd a gwasanaethau telathrebu. Yng Ngogledd Iwerddon, amlinellir gofynion llym ar gyfer arwyddion swyddfa yn y Penderfyniad.

### **Lliniaru costau rhent uchel mewn rhai ardaloedd**

Mae'n ymddangos bod dwy o'r enghreifftiau a ystyriwyd â chymau lliniaru ar gyfer ardaloedd â chostau rhent uchel. Ar gyfer Senedd y DU, eir i'r afael â hyn drwy lefel cyllideb wahanol i Aelodau Seneddol yn ardal Llundain. Yn yr Alban, os gall aelod ddangos bod amrywiadau lleol yn y farchnad yn ei gwneud yn anymarferol iddo sefydlu a chynnal swyddfa addas, caiff wneud cais am gynnydd i'w gyllideb flynyddol hyd at £2,500.

### **Darpariaeth cyfarpar TGCh**

Mae llawer o seneddau'n darparu set sylfaenol o gyfarpar i aelodau a'u staff gyda'r gallu i brynu cyfarpar ychwanegol drwy ddefnyddio cronfeydd swyddfa etholaethol, ond ei brynu gan wasanaethau seneddol i sicrhau diogelwch. Mae rhai'n cymhwyso cap ar nifer y setiau a ddarperir (Canada, 5 set), ac mae gan eraill gap cyllidebol (Seland Newydd, \$3,000).

Mae Aelodau o'r Senedd yn cael hyd at chwe set o gyfarpar TGCh gan Gomisiwn y Senedd, un iddynt eu hunain a hyd at bum set i'w staff, gyda'u Cronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr i dalu cost unrhyw gyfarpar ychwanegol sydd ei angen.

### **Lefel yr amodau rheoli a gymhwysir i weithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu**

Mae amrywiad eithaf sylweddol yn lefel yr amodau rheoli a gymhwysir i weithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu. Mae rhai seneddau yn darparu set o egwyddorion cyffredinol a rheolau y gall aelodau ddefnyddio eu crebwyll eu hunain yn eu herbyn i benderfynu beth sy'n gymwys – Senedd y DU, Senedd Cymru, Seland Newydd a Chanada. Mae eraill yn nodi rhestrau eithaf cynhwysfawr o'r hyn a ganiateir – Iwerddon, ac Awstralia.

### **Adrodd ac atebolrwydd**

Mae'r rhan fwyaf o systemau'n cynnwys rhyw fath o ardystiad neu ddatganiad gan aelodau bod gwariant o fewn y rheolau ac mae llawer yn cyhoeddi treuliau ar-lein. Mae Iwerddon hefyd yn cynnwys archwiliad annibynnol. Mae'r holl aelodau'n gymwys i'w dewis ar gyfer archwiliad, gydag o leiaf 10 y cant yn cael eu dewis bob blwyddyn. Mae rhaid i bob aelod gadw

derbynebau a phrawf talu am gyfnod pum mlynedd er mwyn galluogi archwiliadau i ddigwydd (nid yw hyn yn cynnwys gwariant misol heb dderbynneb ar gyfer mân gostau). Cyhoeddir adroddiadau gan yr archwilwyr annibynnol ar wefan yr Oireachtas.

### **Mesurau i gefnogi Deiliaid Swyddi Ychwanegol**

Awstralia yw'r unig enghraifft i wneud darpariaeth benodol ar gyfer deiliaid swyddi ychwanegol i'w galluogi i gael mynediad i swyddfa weinidogol o fewn eu hetholaeth. O gofio'r ffocws ar weithio hybrid yn y dyfodol, gan gynnwys i'r Aelodau, gall swyddfa ar gyfer gwaith gweinidogol o fewn etholaethau ddod yn fwy arwyddocaol yn y Seithfed Senedd.

## 2. Cyflwyniad

Mae Bwrdd Taliadau Annibynnol y Senedd (y Bwrdd) yn gwneud penderfyniadau annibynnol ar gyflog a chymorth uniongyrchol i Aelodau o'r Senedd. Mae'r Bwrdd yn gwneud penderfyniadau ar sail tair egwyddor arweiniol:

1. Dylai ein penderfyniadau fod yn briodol yng nghyd-destun enillion yng Nghymru ac amgylchiadau ariannol ehangach Cymru.
2. Dylai ein penderfyniadau gefnogi pwrpas strategol y Senedd a hwyluso gwaith ei Haelodau.
3. Dylai ein penderfyniadau fod yn gadarn, yn glir, yn dryloyw, yn gynaliadwy, yn gynhwysol ac yn cynrychioli gwerth i'r trethdalwr.

Cyn pob tymor Senedd newydd, mae'r Bwrdd yn gwneud Penderfyniad newydd ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau. Mae'r Penderfyniad hwn yn nodi system y cymorth ariannol a'r tâl y mae ar yr Aelodau eu hangen. Bob blwyddyn, mae adolygiad blynyddol yn ystyried a oes angen newidiadau i lwfansau, ac eithrio cyflogau'r Aelodau (oni bai bod amgylchiadau eithriadol).

### Adolygiadau thematig

Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd yn cynnal rhaglen o adolygiadau thematig, sy'n edrych yn fanylach ar elfennau o'r Penderfyniad. Mae'r gwaith hwn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun diwygio'r Senedd arfaethedig, a allai newid maint a chyfansoddiad y Seithfed Senedd yn sylweddol.

Mae pum adolygiad:

- Symleiddio
- Ffyrdd o Weithio
- Cymorth Staffio
- Y Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol
- Taliadau a Chymorth Personol i'r Aelodau

Mewn llawer o systemau gwleidyddol ledled y byd, mae gwaith etholaethol yn rhan gydnabyddedig o waith seneddwr. Fel y cyfryw, mae llawer o ddeddfwrfeydd yn rhoi cymorth i aelodau sefydlu a gweithredu swyddfa etholaethol ac i ymgymryd â gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu â'u hetholwyr.



Fel rhan o waith adolygiadau thematig y Bwrdd Taliadau Annibynnol, mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i ffyrdd o weithio a'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr bresennol. Mae'r papur hwn yn rhan o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr adolygiad thematig hwn, gan ddod â gwybodaeth at ei gilydd am gyllidebau swyddfa ac ymgysylltu mewn nifer o ddeddfwrfeydd ledled y DU ac yn rhyngwladol. Er ei bod yn heriol cymharu'n uniongyrchol werth y cymorth hwn mewn enghreifftiau rhyngwladol, mae pob deddfwrfa yn gweithredu mewn set unigryw o gyd-destunau gwleidyddol ac economaidd, gall ystyried y model cymorth ddarparu dirnadaethau defnyddiol cyn y Seithfed Senedd. O ddiddordeb arbennig yn sgil diwygio'r Senedd y mae enghreifftiau lle y mae etholaethau aml-aelod ar waith neu fod gan aelodau etholaethau mwy i'w cynrychioli.

## 3. Cymorth Swyddfa a Chyfathrebu: Deddfwrfeydd y DU

Mae holl ddeddfwrfeydd y DU yn darparu cymorth ariannol i aelodau ar gyfer gweithredu swyddfa etholaethol, ac i ymgysylltu â'u hetholwyr. Mae graddfa a model y cymorth hwn yn amrywio, yn ogystal â lefel yr hyblygrwydd sydd gan aelodau dros wariant cyfathrebu. Mae'r adran hon o'r papur yn rhoi crynodeb o'r cymorth y darperir ar ei gyfer ym mhob un o ddeddfwrfeydd y DU.

### Y Senedd

Gwneir darpariaeth ym Mhennod 6 o'r *Penderfyniad ar Gyflogau a Lwfansau'r Aelodau* i Aelodau gael ad-daliad ar gyfer "unrhyw gostau rhesymol sy'n ymwneud â rhedeg swyddfa ac ymgysylltu ag etholwyr". Yr enw ar hyn yw'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr.

Yn 2023-24, gosodwyd hyn ar £25,610 y flwyddyn i Aelodau sy'n cynnal swyddfa yn eu hetholaeth neu eu rhanbarth, a £10,460 i'r rhai sy'n cyflawni eu dyletswyddau etholaethol neu ranbarthol o Dŷ Hywel yn unig. Gall aelodau drosglwyddo hyd at 25 y cant o'u Cronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr i'w Lwfans Staffio a'r gwrthwyneb.

Yn ogystal, gall Aelodau hawlio lwfans cychwyn swyddfa (wedi'i gapio ar £5,000 yn 2023-24) a gall y rhai sy'n gwasanaethu trydydd tymor olynol (neu fwy) ddefnyddio hyd at £1000 i adnewyddu rhai o'u dodrefn swyddfa.

O fewn y terfynau gwariant hyn, gall Aelodau hawlio am "gostau rhesymol sy'n gysylltiedig â chynnal swyddfa ac ymgysylltu â'u hetholwyr", gan ystyried yr egwyddor ar weithgarwch gwleidyddol plaid fel y nodir yn y Penderfyniad. Gall aelodau ddefnyddio eu crebwyll eu hunain, gyda chynghor a chymorth gan y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau i benderfynu a yw'r costau'n gymwys o dan y Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr.

Yn 2023-24, darparwyd chwe set o gyfarpar TGCh i bob Aelod fel safon, y mae Comisiwn y Senedd yn talu costau hynny. Gellir defnyddio'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr i dalu am gyfarpar TGCh ychwanegol, ond mae rhaid caffael hyn drwy Gomisiwn y Senedd.

## Prydlesu swyddfa

---

Mae rhaid i aelodau fodloni nifer o ofynion er mwyn hawlio ad-daliad o gostau rhentu swyddfa.

- Mae rhaid hysbysu'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau o'r cynnig cyn llofnodi
- Mae rhaid i brisiwr cymwysedig hysbysu'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau bod y rhent arfaethedig yn rhesymol
- Cafwyd cyngor cyfreithiol ar addasrwydd prydles y swyddfa
- Mae copi o'r cytundeb rhentu a weithredwyd wedi'i roi i'r tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau

## Costau polisi, ymchwil a chyfathrebu

---

Caiff Aelod hefyd ddefnyddio'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr ar gyfer y gost o "gael cyngor neu gymorth gan arbenigwyr allanol, am gyfnod penodol, i gyflawni darn penodol o waith polisi, ymchwil a chyfathrebu."

Gellir defnyddio'r Gronfa i wneud gwaith ymchwil i ddatblygu polisi, archwilio materion sydd o bwys i etholwyr, ac i graffu ar bolisi, deddfwriaeth neu gyllid.

O ran gweithgarwch ymgysylltu, enghreifftiau nodweddiadol o waith y gellir ei gaffael yn allanol yw:

- datblygu adnoddau sy'n creu cysylltiadau rhwng cyfrifoldebau'r Senedd, materion lleol a gweithgarwch yr Aelod
- helpu i ddatblygu Adroddiad Blynyddol a gynhyrchir yn broffesiynol
- cynhyrchu cylchlythyrau rheolaidd

Gall aelodau gomisiynu gwaith ar y cyd a rhannu costau a gallant hefyd drosglwyddo arian i'w swyddfa Grŵp at ddibenion comisiynu gwaith ymchwil polisi yn unig.

## Senedd y DU

O dan y *Cynllun Costau Staffio a Busnes Aelodau Seneddol*, darperir cyllideb costau swyddfa i Aelodau Seneddol dalu costau rhentu, cyfarparu a chynnal eu swyddfeydd etholaethol, eu cymorthfeydd a gweithgareddau eraill sy'n cefnogi eu swyddogaethau seneddol.<sup>1</sup> Yn 2023-24 roedd gan Aelodau Seneddol ardal Llundain gyllideb £33,840 ac roedd gan Aelodau Seneddol y tu allan i Lundain gyllideb £30,570.

Mae pob Aelod Seneddol yn gymwys i hawlio costau dan y gyllideb hon, boed a yw'n rhentu eiddo swyddfa ai peidio. Ar yr amod bod Aelodau Seneddol yn aros o fewn eu cyllideb, gallant rentu mwy nag un swyddfa.

Er na ddarperir rhestr gynhwysfawr o'r costau cymwys – mae Aelodau Seneddol yn cael y disgrisiwn i benderfynu a yw hawliadau'n cyd-fynd ag egwyddorion sylfaenol y Cynllun – ceir rhestr fer o gostau anghymwys:

- Diodydd alcoholig
- Deunydd ysgrifennu a ddarperir gan Dŷ'r Cyffredin
- Newyddlenni
- Ariannu deunydd, ac eithrio gwefannau, sy'n cynnwys logo neu arwyddlun gwleidyddol plaid.
- Cyfrifeg bersonol neu gyngor treth

Mae tâl atodol cychwyn ar gael i Aelodau Seneddol sydd newydd eu hethol; £6,000 oedd hyn yn 2023-24.

### Prydlesu swyddfa

---

Dim ond pan fydd swyddfa wedi'i chofrestru gyda'r Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol ac mae'r dogfennau gofynnol wedi dod i law, gan gynnwys y cytundeb rhentu, y gellir gwneud hawliadau am gostau rhentu swyddfa.

Ar ôl cofrestru, gellir hawlio'r costau a ganlyn:

---

<sup>1</sup> IPSA *Cynllun Costau Staffio a Busnes Aelodau Seneddol 2023-24 (Saesneg yn unig) (diwygiwyd Gorffennaf 2023)*

- Biliau ynni a dŵr
- Ardrethi busnes
- Yswiriant cynnwys
- Yswiriant adeiladau
- Costau rhentu a defnydd ar gyfer ffôn a mynediad i'r rhyngwyd

Mae Aelodau Seneddol yn gyfrifol am wirio telerau ac amodau eu cytundebau rhentu, ac mae rhaid iddynt drafod cymal i'w galluogi i roi dau fis o rybudd os bydd amgylchiadau'n newid, e.e. gadael y senedd.

Gall Aelodau Seneddol wneud cais i'r Awdurdod Safonau Seneddol Annibynnol am fenthyciad i dalu blaendal sy'n daladwy ar ddechrau tenantiaeth.

Ni chodir tâl am gostau cyfieithu i Aelodau Seneddol Cymru ar y gyllideb costau swyddfa. Gall Aelodau Seneddol hawlio am wasanaethau staffio ar y cyd o'r gyllideb costau swyddfa neu'r gyllideb costau staffio.

## **Senedd yr Alban**

Mae gan Aelodau o Senedd yr Alban hawl i ad-daliad costau a ysgwyddir yn rhesymol wrth brydlesu a chynnal swyddfa seneddol leol wrth gyflawni dyletswyddau seneddol yr aelod.<sup>2</sup>

Yn 2023-24, cyfanswm y ddarpariaeth am gostau swyddfa ar gyfer Aelodau etholaethol oedd £20,100.<sup>3</sup> O gofio'r trefniadau gwahanol ar gyfer Aelodau rhanbarthol, nodir y byddant yn cael eu cynghori'n unigol beth yw eu cyllideb darpariaeth am gostau swyddfa. Mae gan aelodau hawl hefyd i ddarpariaeth cychwyn o fewn blwyddyn gyntaf sesiwn seneddol newydd neu yn dilyn is-etholiad.

---

<sup>2</sup> Senedd yr Alban, *Cynllun Ad-dalu* Treuliau Aelodau <https://www.parliament.scot/-/media/files/msps/allowances/members-expense-scheme-2023.pdf> (Saesneg yn unig) [Fel ar 30.01.24]

<sup>3</sup> Senedd yr Alban, Treuliau Aelodau <https://www.parliament.scot/msps/members-expenses/allowances-rates> (Saesneg yn unig) [Fel ar 31.01.24]

---

Os gall aelod ddangos bod amrywiadau lleol yn y farchnad ar gyfer swyddfeydd yn ei gwneud yn anymarferol iddo sefydlu a chynnal swyddfa addas, gellir cynyddu'r gyllideb flynyddol hyd at £2,500.<sup>4</sup>

Gall Aelodau o Senedd yr Alban hawlio ad-daliad o'r **costau swyddfa**<sup>5</sup> a ganlyn:

- Cost sefydlu a chynnal swyddfa seneddol leol megis prydlesu a chostau cyfleustodau.
- Prynu neu brydlesu dodrefn swyddfa neu gyfarpar.
- Cost telathrebu.
- Cost tanysgrifiadau blynyddol, gwasanaethau cysylltiedig â swyddfa ac yswiriant.
- Cost llety dros nos i aelod o staff, gwirfoddolwr neu intern pan fydd yn ofynnol iddynt fod yng nghwmni aelod at ddiben helpu'r aelod i gyflawni dyletswyddau seneddol.
- Y ffioedd ar gyfer aelod yn mynd i seminar neu gynhadledd.
- Costau eraill sy'n ategol i'r uchod.

Dim ond mewn cysylltiad ag un swyddfa seneddol y gellir gwneud hawliadau. Ni ellir defnyddio'r swyddfa ar gyfer gweithgareddau gwleidyddol.

Os bydd Aelod yn dewis peidio â sefydlu neu gynnal swyddfa seneddol leol, mae ei hawl yn cael ei gostwng 50 y cant.<sup>6</sup> I'r rhai sy'n dewis gweithio gartref, nid oes ganddynt hawl i ddarpariaeth am gostau swyddfa.

### Trefniadau ar gyfer Aelodau Rhanbarthol<sup>7</sup>

---

Mae'r trefniadau ar gyfer aelodau rhanbarthol yn wahanol. Pan fo un aelod rhanbarthol yn cael ei ddychwelyd o restr plaid wleidyddol gofrestredig neu os nad oes ganddo ymlyniad wrth yr un blaid, **mae** gan yr aelod hwnnw hawl i ad-daliad costau swyddfa.

Pan ddychwelir mwy nag un aelod rhanbarthol o restr plaid wleidyddol gofrestredig mae'r aelodau hynny'n gymwys i ad-daliad costau swyddfa mewn cysylltiad ag un swyddfa ranbarthol

---

<sup>4</sup> Senedd yr Alban *Cynllun Ad-dalu Treuliau Aelodau*

<sup>5</sup> Ibid.

<sup>6</sup> Ibid.

<sup>7</sup> Ibid.

yn unig, gyda chostau'n cael eu rhannu'n gyfartal rhwng aelodau (mae trefniadau ychydig yn wahanol ar gyfer aelodau rhanbarthol mewn rhanbarthau penodedig).

Dyma'r terfyn ar hawl pob aelod rhanbarthol sy'n cymryd rhan:

<b>Number of regional Members</b>	<b>Percentage of limit on office costs applicable to a single regional Member</b>	
	<b>One office in the region (limit per member)</b>	<b>Two offices in the region (limit per member)</b>
-		
<b>2</b>	<b>60%</b>	<b>100%</b>
<b>3</b>	<b>47%</b>	<b>80%</b>
<b>4</b>	<b>40%</b>	<b>65%</b>
<b>5</b>	<b>36%</b>	<b>56%</b>

#### Darpariaeth ymgysylltu

---

Mae'r costau ar gyfer ymgysylltu ag etholwyr ar wahân i ddarpariaeth am gostau swyddfa. Gall Aelodau hawlio ad-daliad o gostau a ysgwyddir yn rhesymol wrth ymgysylltu â'u hetholwyr wrth gyflawni dyletswyddau seneddol yr Aelod.<sup>8</sup> Yn 2023-24, cafodd hyn ei gapio ar hyd at £16,500.<sup>9</sup>

Mae costau cymwys yn cynnwys y rhai a ganlyn ond heb fod yn gyfyngedig iddynt<sup>10</sup>:

- Treuliau cyfarfod busnes
- Costau postio
- Costau hysbysebu

---

<sup>8</sup> Ibid.

<sup>9</sup> Senedd yr Alban, Treuliau Aelodau <https://www.parliament.scot/msps/members-expenses/allowances-rates> (Saesneg yn unig) [Fel ar 31.01.24]

<sup>10</sup> Senedd yr Alban *Cynllun Ad-dalu Treuliau Aelodau*

---

- Llogi safleoedd ar gyfer cymorthfeydd, cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd eraill ag etholwyr
- Cost cyhoeddi a dosbarthu newyddlenni, adroddiadau blynyddol ac arolygon

Bob blwyddyn, gall aelodau amrywio eu cyllidebau costau swyddfa ac ymgysylltu hyd at £5,000, drwy drosglwyddo arian rhwng y ddwy.

## Cynulliad Gogledd Iwerddon

Gall Aelodau Cynulliad Gogledd Iwerddon adennill treuliau rhent ar gyfer swyddfa etholaethol. Yn 2020, cafodd hyn ei gapio ar £8,500 y flwyddyn os nad yw'r swyddfa'n cael ei rhannu, £4,000 y flwyddyn os yw'r swyddfa'n cael ei rhannu ag un neu fwy o bobl a £6,000 os yw'r swyddfa'n cael ei rhannu ag un neu fwy o bobl ac mae'r holl bobl hynny yn aelodau.<sup>11</sup>

Gall swyddfeydd a rennir fod ar sawl ffurf:

- Un swyddfa a rennir gan Aelodau o'r Cynulliad Deddfwriaethol o'r un blaid wleidyddol
- Dau neu fwy o safleoedd yn yr un adeilad, sy'n eiddo i'r un person ac yn cael eu defnyddio gan aelodau o'r un blaid, pan fo un yn aelod o Dŷ'r Senedd

Gall aelodau hefyd adennill treuliau sy'n gysylltiedig â chostau **cychwyn swyddfa** hyd at £4,000 (yn 2020).

Er mwyn hawlio costau, mae rhaid i'r Comisiwn gymeradwyo'r brydles, ac mae rhaid i arwyddion yn unol â chanllawiau'r Comisiwn fod ar waith.

Darperir cyllideb ar wahân i Aelodau o'r Cynulliad Deddfwriaethol dalu **costau gweithredu etholaethol**. Yn 2020, gosodwyd hyn ar £7,000 y flwyddyn. Mae treuliau cymwys yn cynnwys y rhai a ganlyn ond heb fod yn gyfyngedig iddynt<sup>12</sup>:

- Cyfleustodau, band eang a thelathrebu

---

<sup>11</sup> Cynulliad Gogledd Iwerddon, *Penderfyniad Aelodau Cynulliad (Cyflogau a Threuliau) (Gogledd Iwerddon) 2016 fel y'i diwygiwyd gan Benderfyniad Aelodau Cynulliad (Cyflogau a Threuliau) (Diwygio) (Gogledd Iwerddon) 2020* [http://www.niassembly.gov.uk/globalassets/documents/your\\_mlas/determinations/assembly-members-salaries-and-expenses-determination-northern-ireland-2016-as-amended.pdf](http://www.niassembly.gov.uk/globalassets/documents/your_mlas/determinations/assembly-members-salaries-and-expenses-determination-northern-ireland-2016-as-amended.pdf) (Saesneg yn unig) [Fel ar 31.01.24]

<sup>12</sup> Ibid.



- Cyngor cyfreithiol sy'n gysylltiedig â phrydlesu'r swyddfa etholaethol
- Dodrefn swyddfa, deunydd ysgrifennu a chyfarpar (gan gynnwys costau cynnal a chadw cysylltiedig)
- Deunyddiau traul TGCh a meddalwedd
- Glanhau swyddfa
- Cofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
- Arwyddion
- Yswiriant
- Iechyd a diogelwch
- Addasiadau rhesymol
- Mesurau diogelwch
- Mesurau diogelu rhag tân
- Taliadau statudol ac ardrethi dŵr
- Llogi lleoliad ar gyfer cymorthfeydd
- Hysbysebu gwybodaeth ffeithiol sy'n ymwneud â manylion cyswllt ac amseroedd agor y swyddfa etholaethol neu mewn perthynas â chynnal cymorthfeydd ategol
- Trwydded deledu
- Papurau newydd a chyfnodolion

**Cymhariaeth sydyn o ddeddfwrfeydd y DU**

	<b>Y Senedd</b>	<b>Senedd y DU</b>	<b>Senedd yr Alban</b>	<b>Cynulliad Gogledd Iwerddon</b>
<b>Cyfanswm gwerth cymorth 2023-24</b>	£25,610	£30,570 (Y tu allan i Lundain)	£36,600	£15,500
<b>A yw hyn wedi'i rannu'n gyllidebau swyddfa ac ymgysylltu?</b>	Nac ydy	Nac ydy	Ydy	Ydy
<b>Cyllideb swyddfa</b>			£20,100	£8,500
<b>Cyllideb ymgysylltu</b>			£16,500	£7000

## 4. Cymorth Swyddfa a Chyfathrebu: Enghreifftiau rhyngwladol

Mae llawer o seneddau'n cynnig cymorth i aelodau wneud eu gwaith etholaethol, yn aml ar ffurf swyddfa etholaethol a chostau cynnal cysylltiedig a chyllideb ar gyfer cyfathrebu ac ymgysylltu ag etholwyr. Gall model a graddfa'r cymorth hwn amrywio, yn ogystal â lefel yr amodau rheoli a gymhwysir, yn enwedig mewn perthynas â gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu.

Mae'r adran hon o'r papur yn amlinellu'r cymorth sydd ar gael i aelodau mewn nifer o seneddau. Yn sgil trefniadau arfaethedig diwygio'r Senedd, mae'r seneddau a ddewiswyd i'w cynnwys naill ai'n gweithredu gydag etholaethau aml-aelod, neu systemau lle y mae gan aelodau etholaethau mawr i'w cynrychioli (nodir isod y system etholiadol sydd ar waith ym mhob un o'r deddfwrfeydd).

### Oireachtas – Iwerddon

*Y System Etholiadol: Etholir aelodau i etholaethau aml-aelod rhwng 3 a 5 dan system y bleidlais sengl drosglwyddadwy*

Mae Teachtaí Dála yn cael Lwfans Safonol Seneddol. Mae hyn yn cynnwys dwy elfen, ac un ohonynt yw'r **Lwfans Cynrychiolaeth Gyhoeddus**. Gellir defnyddio'r Lwfans Cynrychiolaeth Gyhoeddus i dalu ystod o gostau a amlinellir mewn rheoliadau, a ysgwyddir yn llwyr ac yn gyfan gwbl wrth gyflawni ei ddyletswyddau fel Aelod.<sup>13</sup> Mae hyn yn cynnwys costau swyddfeydd etholaethol a chyfathrebu ac ymgysylltu ag etholwyr.

Yr uchafswm cyfredol, gan gynnwys deiliaid swyddi heblaw un o Weinidogion y Llywodraeth neu'r Wladwriaeth, yw €20,350.

---

<sup>13</sup> Tai'r Oireachtas (2021) *Lwfans Cynrychiolaeth Gyhoeddus: Canllawiau ar Ddefnyddio'r Lwfans Cynrychiolaeth Gyhoeddus* (Saesneg yn unig) (SI84/2010 ac SI 149/2013)  
[https://data.oireachtas.ie/ie/oireachtas/members/parliamentaryAllowances/other/2021/2021-11-19\\_guidelines-on-the-use-of-the-public-representation-allowance-pra-2021\\_en.pdf](https://data.oireachtas.ie/ie/oireachtas/members/parliamentaryAllowances/other/2021/2021-11-19_guidelines-on-the-use-of-the-public-representation-allowance-pra-2021_en.pdf)

## Gwariant cymwys

---

Nodir categorïau gwariant cymwys mewn dau reoliad – SI 84/2010 ac SI 149/2013. Mater i'r aelodau yw penderfynu a yw cost yn gymwys dan un o'r categorïau gwariant, sy'n fwriadol eang, ond ni chaiff aelodau ailddehongli'r categorïau gwariant.<sup>14</sup>

Dyma'r categorïau gwariant<sup>15</sup>:

- Rhent, ardrethi a thaliadau eraill o'r fath mewn perthynas â swyddfa neu swyddfeydd
- Cyfleustodau swyddfa neu swyddfeydd
- Gwelliannau i swyddfa
- Arwyddion mewn cysylltiad â'r swyddfa etholaethol
- Prynu neu gynnal a chadw dodrefn swyddfa neu gyfarpar
- Prynu deunydd ysgrifennu
- Yswiriant gan gynnwys ar gyfer swyddfa neu gyfarpar ac yswiriant atebolrwydd cyhoeddus
- Glanhau swyddfa
- Galwadau ffôn, gan gynnwys rhentu llinell a galwadau ffôn symudol sy'n ymwneud â chyflawni dyletswyddau fel Aelod
- Gwe-letya a chostau cyfrifiadurol eraill
- Llogi ystafelloedd ar gyfer clinigau neu gyfarfodydd eraill sy'n ymwneud â chyflawni dyletswyddau fel aelod
- Dosbarthu tafenni a newyddlenni
- Hysbysebu sy'n ymwneud â chyflawni dyletswyddau fel aelod
- Mynd i gynadleddau sy'n ymwneud â chyflawni dyletswyddau fel aelod (ac eithrio costau teithio)
- Yn gymwys o 1 Chwefror 2012 yn unig – Treulïau, gan gynnwys didyniadau statudol, ar gyfer prynu cymorth ysgrifenyddol, cysylltiadau cyhoeddus, technoleg gwybodaeth (ond nid yn gysylltiedig â'r rhyngwyd) a gwasanaethau hyfforddi dan gontract gwasanaeth gan berson neu ddarparwr gwasanaeth, ac eithrio - (i) Personau a gyflogir neu dreulïau a ysgwyddir o dan Reoliad 9 neu Reoliadau 2008, neu (II) Staff Gweinidogol a gyflogir dan y Canllawiau ar Staffio Swyddfeydd Gweinidogol.

---

<sup>14</sup> Ibid.

<sup>15</sup> <https://www.oireachtas.ie/en/members/salaries-and-allowances/parliamentary-standard-allowances/>.[Fel ar 09.01.24]

Mae'r canllawiau a ddarperir i Teachtaí Dála yn nodi nifer o gyfyngiadau ar wariant mewn rhai o'r categorïau uchod:

- Diffinnir **swyddfa** fel ystafell neu ystafelloedd a ddefnyddir dim ond ar gyfer neu yn ystod y cyfnod perthnasol ar gyfer trafodion busnes wrth gyflawni ei ddyletswyddau fel Aelod.
- Mae rhaid i wariant ar **hysbysebu** fod yn gysylltiedig â dyletswyddau Teachtaí Dála fel aelod ac mae rhaid i'r prif ddiben fod nodi enw'r Aelod, ei fanylion cyswllt, ei gyfeiriad, ei amseroedd clinig, teitl y cyfarfod, y lleoliad, yr amser a'r dyddiad.<sup>16</sup> Dim ond pan na all ystafell argraffu Tŷ'r Oireachtas wneud hyn y caniateir hawlio costau argraffu hysbysebion. Ni chaniateir hysbysebion etholiadol ac mae rhaid cadw copïau o'r hysbyseb a'u cyflwyno fel rhan o ddogfennaeth. Nid yw costau hysbysebu cymwys yn cynnwys dylunio graffig, ffotograffiaeth a fideograffiaeth.
- Gellir hawlio costau ar gyfer dosbarthu **taflenni a newyddlenni** ond nid costau argraffu.
- Ni chaniateir gvariant ar **ymchwil** gan fod y Lwfans Gweithgareddau Seneddol<sup>17</sup> yn talu am hyn a gall aelodau hefyd gyrchu Gwasanaethau Ymchwil a ddarperir gan Dai'r Oireachtas.<sup>18</sup> Tybir bod ymchwil yn cynnwys ymchwil polisi cymdeithasol, ymchwil i ddeall effaith bosibl deddfwriaeth ac ymchwil polisi plaid.
- Gall aelodau gynnwys yn eu cyllideb lwfans misol €100 i dalu **mân dreulïau**. Mae hyn heb dderbynebaw.
- Gellir hawlio costau hyfforddi staff os ydynt yn gysylltiedig â dyletswyddau aelod.
- Gellir hawlio costau cyfieithu hefyd.

---

<sup>16</sup> Tai'r Oireachtas (2021) *Lwfans Cynrychiolaeth Gyhoeddus: Canllawiau ar Ddefnyddio'r Lwfans Cynrychiolaeth Gyhoeddus* (Saesneg yn unig) (SI84/2010 ac SI 149/2013)

<sup>17</sup> Yn Lwfans Arweinydd y Blaid fel y'i gelwid yn flaenorol, mae hyn yn daliad i arweinydd plaid i dalu costau gweithgareddau seneddol, gan gynnwys ymchwil. Caiff ei ddyrannu ar sail maint y grŵp ac mae'n debyg i'r Lwfans Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol o ran diben a dyluniad.

<sup>18</sup> Tai'r Oireachtas (2021) *Lwfans Cynrychiolaeth Gyhoeddus: Canllawiau ar Ddefnyddio'r Lwfans Cynrychiolaeth Gyhoeddus* (Saesneg yn unig) (SI84/2010 ac SI 149/2013)

---

## Gweithredu'r Lwfans Cynrychiolaeth Gyhoeddus

---

Mae'r Lwfans Cynrychiolaeth Gyhoeddus yn cael ei dalu'n fisol. Un mis cyn 1 Ionawr bob blwyddyn, mae rhaid i Teachtaí Dála nodi swm y Lwfans Cynrychiolaeth Gyhoeddus y maent am ei gael bob mis, sy'n ddarostyngedig i'r uchafswm blynyddol a amlinellir uchod. Mae rhaid ad-dalu unrhyw arian heb ei wario, a gellir gwneud cais am daliad atodol i dalu am orwariant, ar yr amod na fyddai hyn yn fwy na'r uchafswm blynyddol.<sup>19</sup>

Mae rhaid i aelodau lenwi ffurflen Tystysgrif Gwariant bob blwyddyn, sy'n ardystio'r swm a wariwyd ad y cafodd ei wario'n briodol fel yr amlinellir yn y rheoliadau.<sup>20</sup>

## Adrodd ac atebolrwydd

---

Y prif fecanwaith atebolrwydd yw archwiliad annibynnol blynyddol o sampl o Teachtaí Dála. Mae'r holl aelodau'n gymwys i'w dewis ar gyfer archwiliad, gydag o leiaf 10 y cant yn cael eu dewis bob blwyddyn.<sup>21</sup> Mae rhaid i bob aelod gadw derbynebaw a phrawf talu am gyfnod pum mlynedd er mwyn galluogi archwiliadau i ddigwydd (nid yw hyn yn cynnwys gwariant misol heb dderbynneb ar gyfer mân gostau). Cyhoeddir adroddiadau gan yr archwilwyr annibynnol ar wefan yr Oireachtas.<sup>22</sup>

## Awstria

*System Etholiadol: system rhestr lle y mae aelodau'n cael eu hethol i etholaethau aml-aelod*

Yn Awstria, mae gan aelodau'r Cyngor Cenedlaethol hawl i gael ad-daliad o gostau gweithredu a ysgwyddir wrth arfer eu mandad. Mae hyn yn cynnwys yr holl gostau gweithredu, gan gynnwys teithio, llety, costau swyddfa (gan gynnwys costau gweithredu a threuliau ar gyfer personél nad ydynt yn dod o dan y Ddeddf Cynorthwywyr Seneddol), a'r holl dreuliau eraill ac eithrio adloniant.<sup>23</sup>

Mae costau gwirioneddol yn cael eu had-dalu i aelodau hyd at uchafswm cost. Mae'r uchafswm cost yn gysylltiedig â chyflog misol gwas ffederal y Gwasanaeth Gweinyddol Cyffredinol (grŵp

---

<sup>19</sup> Ibid.

<sup>20</sup> Ibid.

<sup>21</sup> Ibid.

<sup>22</sup> Ibid.

<sup>23</sup> <https://www.parlament.gv.at/en/explore/making-laws/legal-bases/page/index.html> [Fel ar 09.01.24]

cyflogaeth A1, lefel cyflog 13). Gall aelodau hawlio hyd at 12 y cant y mis o 98.96 y cant o gyflog misol perthnasol gwas ffederal.<sup>24</sup>

Cyflwynir treuliau i'r Weinyddiaeth Seneddol i'w had-dalu o fewn tri mis ar ôl diwedd y flwyddyn galendr pan gawsant eu hysgwyddo.

## Yr Almaen

*Y System Etholiadol: System Aelodau Cymysg; Etholaethau un aelod gyda rhanbarthau'n gorgyffwrdd*

Yn yr un modd ag Awstria, mae Aelodau'r Bundestag yn cael un lwfans misol i dalu ystod o dreuliau a ysgwyddir mewn cysylltiad â'u mandad seneddol. Mae hyn yn cynnwys<sup>25</sup>:

- Treuliau swyddfa, gan gynnwys costau sefydlu a chynnal swyddfa etholaethol, deunydd darllen a chyfryngau cyfathrebu.
- Gwariant ychwanegol a ysgwyddir ar sedd y Bundestag a threuliau teithio.
- Costau teithio ar gyfer teithiau mewn cysylltiad â'u mandad yn yr Almaen.
- Treuliau ychwanegol na ellir eu talu fel arall o'r taliadau proffesiynol a'r lwfansau a delir i dalu costau byw.

Mae cyfanswm gwerth y lwfans hwn yn cael ei uwchraddio bob blwyddyn, ym mis Ionawr, yn unol â chostau byw cyffredinol yr holl aelwydydd yn y flwyddyn flaenorol.<sup>26</sup> Cyfradd bresennol y lwfans yw €4,75.48 y mis (€56,705.76 y flwyddyn).<sup>27</sup>

## Seland Newydd

*Y System Etholiadol: System cynrychiolaeth gyfrannol aelodau cymysg yn ethol 120 o seddau; etholaethau un aelod. Mae pob ardal bleidleisio yn dod dan etholaeth gyffredinol ac etholaeth*

---

<sup>24</sup> Ibid.

<sup>25</sup> Deddf Aelodau'r Bundestag

<https://www.bundestag.de/resource/blob/189732/12f31382e6855396ce43b5bb7b9f0062/memlaw-data.pdf> [Fel ar 09.01.24]

<sup>26</sup> Ibid.

<sup>27</sup> Ibid.

*Maori; mae preswylwyr pob etholaeth yn dewis aelod Seneddol i'w cynrychioli ac maent hefyd yn cael pleidlais plaid.*

Gellir talu costau swyddfa etholaethol neu gymunedol a ysgwyddir gan Aelod o Senedd Seland Newydd drwy un o ddwy ffynhonnell o gymorth ariannol y darperir ar eu cyfer yng Nghyfarwyddiadau'r Llefarydd – Cyllid Cymorth Plaid neu Gyllid Cymorth Aelod.<sup>28</sup> Mae rhaid defnyddio'r cyllid hwn i ddarparu gwasanaethau ac adnoddau at ddiben cefnogi pleidiau ac aelodau yn eu gweithrediadau seneddol.<sup>29</sup>

Mae nifer y swyddfeydd y gellir hawlio costau ar eu cyfer yn dibynnu ar faint etholaeth, ac a yw aelod yn aelod etholaethol neu ranbarthol. Gall y rhai sydd ag etholaethau mawr hawlio costau ar gyfer hyd at dair swyddfa, aelodau etholaethol eraill ar gyfer dwy swyddfa ac aelodau rhestr ar gyfer un swyddfa.

Mae Cyllid Cymorth Aelod, y gellir ei ddefnyddio i dalu costau swyddfa etholaethol a gweithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu aelod (cyhoeddusrwydd) yn cynnwys tri is-ddyraniad – is-ddyraniad staff, is-ddyraniad heblaw staff ac is-ddyraniad cyffredinol.<sup>30</sup> Mae swm pob un o'r elfennau hyn yn amrywio gan ddibynnu a yw aelod yn aelod etholaethol neu rhestr, maint etholaeth aelod ac a yw'n Weinidog. Mae is-ddyraniadau staff a chyffredinol yn cynyddu bob blwyddyn, ond nid yw'n wir ar gyfer is-ddyraniadau heblaw staff.<sup>31</sup>

## Rôl Gwasanaethau Seneddol

---

Dim ond os daethpwyd i gytundeb â'r Gwasanaethau Seneddol bod y safle'n addas y gall aelod hawlio costau swyddfa etholaethol. Gall y Gwasanaethau Seneddol ystyried ffactorau gan gynnwys:

- A yw safleoedd yn galluogi gwasanaethau seneddol a'r aelod i fodloni rhwymedigaethau
- A fydd is-ddyraniadau heblaw staff yr aelod yn ddigonol i dalu'r costau
- A yw'r aelod yn cytuno i newidiadau yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol

---

<sup>28</sup> Senedd Seland Newydd: *Cyfarwyddiadau'r Llefarydd 2023* <https://www.parliament.nz/en/pb/parliamentary-rules/directions-determinations/speaker-s-directions-2023/> (Saesneg yn unig) [Fel ar 30.01.24]

<sup>29</sup> Ibid.

<sup>30</sup> Ibid.

<sup>31</sup> Mae'r cyfraddau ar gyfer y tymor seneddol presennol, fel y nodir ar Gyfarwyddiadau'r Llefarydd 2023 wedi'u cynnwys yn Atodiad A.



- A fydd yn ymarferol ac yn gost-efeithiol gweithredu'r swyddfa fel swyddfa etholaethol a chymunedol yr aelod

Darperir ystod o wasanaethau a chyfarpar ar gyfer swyddfeydd etholaethol aelodau gan wasanaethau seneddol, gyda'r costau yn cael eu talu o gyllid adrannol Gwasanaeth Seneddol Pleidleisio, nid Cyllid Cymorth Aelod. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau a chyfarpar TGCh hyd at \$3,000 yr aelod y tymor, mesurau diogelwch a dodrefn ar gyfer pob aelod staff sy'n ymwneud â'r Gwasanaethau Seneddol yn y swyddfa honno.<sup>32</sup>

### Costau cyhoeddusrwydd

---

Gall Aelodau ddefnyddio Cyllid Cymorth Aelod ar gyfer cyhoeddusrwydd, a ddiffinnir fel unrhyw wybodaeth y bwriedir iddi ddod â gweithgareddau seneddol aelod neu blaid at sylw'r cyhoedd, boed a gaiff ei chyfleu mewn print neu ar ffurf 3-dimensiwn neu drwy'r rhyngrwyd, cyfryngau optegol, teledu, radio, neu ddulliau cyfathrebu eraill.<sup>33</sup>

O ran unrhyw gyhoeddusrwydd a ariennir drwy Gyllid Cymorth Aelod:<sup>34</sup>

- Mae rhaid iddo nodi ar adeg y cyfathrebu y talwyd amdano gan gyllid seneddol
- Mae rhaid iddo nodi'n glir yr aelod neu'r blaid sy'n gyfrifol am y cyhoeddusrwydd
- Ni chaiff ddisgrifio nac awgrymu bod aelod yn cynrychioli etholaeth neu ran o etholaeth nad yw'n aelod etholaethol drosti

### Adrodd ac atebolrwydd<sup>35</sup>

---

Mae rhaid i bob plaid ac aelod baratoi cyllideb ar ddechrau pob tymor seneddol ar gyfer sut y maent yn bwriadu gwario eu dyraniadau cyllid cymorth plaid ac aelod. Mae rhaid diweddarau'r rhain ar ddechrau pob blwyddyn seneddol. Mae gwariant misol i'w fonitro gan arweinwyr y pleidiau a chwipiaid y pleidiau.

Mae rhaid i bob aelod ardystio a yw ei wariant fesul eitem yn cydymffurfio â Chyfarwyddiadau'r Llefarydd.

---

<sup>32</sup> Mae staff cymorth i aelodau yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan y Gwasanaethau Seneddol yn Seland Newydd

<sup>33</sup> Senedd Seland Newydd, *Cyfarwyddiadau'r Llefarydd* 2023

<sup>34</sup> Ibid.

<sup>35</sup> Ibid.

## Canada – Tŷ'r Cyffredin<sup>36</sup>

*Y System Etholiadol: Y cyntaf i'r felin*

Rhoddir dwy gyllideb i aelodau Tŷ'r Cyffredin yng Nghanada sy'n talu costau swyddfeydd etholaethol a chostau cyfathrebu ac ymgysylltu:

- Cyllideb Swyddfa Etholaethol
- Cyllideb Swyddfa Aelod

Darperir y **Gyllideb Swyddfa Etholaethol** i dalu'r costau ar gyfer yr adolygiad cyfreithiol o brydlesi swyddfa, rhent swyddfa, cyfleustodau, gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio, cael gwared ag eira ac yswiriant eiddo ac atebolrwydd. Ar gyfer 2023-24, mae hyn wedi'i osod ar hyd at \$38,160 yn seiliedig ar wariant misol cyfartalog \$3,180. Mae'r terfyn hwn yn cael ei addasu'n flynyddol yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr.

Diffinnir swyddfa etholaethol fel un at ddiben helpu Aelodau i gyflawni eu swyddogaethau seneddol, megis cynrychioli eu hetholwyr, ac ni chaniateir ei defnyddio i hyrwyddo eu haillethol, i gefnogi ymgeisydd neu blaid wleidyddol neu i hwyluso trefniadaeth fewnol pleidiau gwleidyddol ar unrhyw adeg.

Mae'n bosibl bod gan aelodau fwy nag un swyddfa yn eu hetholaeth, ond mae rhaid i unrhyw safle fodloni nifer o ofynion o ran yr hyn y mae rhaid i'r lle ei ddarparu – derbynfa, swyddfa breifat i'r Aelod ac i'r cyflogeion, ystafell ymolchi, nodweddion hygrychedd a gwasanaethau telathrebu. Gall aelodau ddewis swyddfa annibynnol, swyddfa a rennir neu swyddfa y tu allan i'r etholaeth (gyda chaniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan yr aelod y mae'r swyddfa yn ei etholaeth). Mae rhaid i Aelodau hefyd gynnwys nifer o gymalau gorfodol yn eu cytundebau prydles sy'n ymwneud â therfynu ac aseinio prydles, dull rhybudd a chael rhybudd a gofynion hygrychedd.

Darperir **Cyllideb Swyddfa Aelod** i dalu costau, gan gynnwys cyflogau cyflogeion, contractau gwasanaeth, dyfeisiau di-wifr, rhai costau gweithredu a theithio, costau swyddfa etholaethol nad ydynt yn dod dan y Gyllideb Swyddfa Etholaethol. Mae rhai aelodau'n cael elfennau atodol i'w Cyllideb Swyddfa Aelod – taliad atodol etholwyr i'r rhai sydd ag etholaethau trwchus eu poblogaeth a thaliad atodol daearyddol i'r rhai sydd ag etholaethau mwy. Mae pob Aelod yn

---

<sup>36</sup> <https://www.ourcommons.ca/Content/MAS/mas-e.pdf> [Fel ar 11.01.24]

cael hyd at bum dyfais gyfrifiadurol a reolir a phecynnau meddalwedd safonol, y mae eu cost yn dod dan gyllideb ganolog Gweinyddiaeth y Tŷ. Caiff aelodau ddefnyddio eu Cyllideb Swyddfa Aelod i dalu cost hyd at bum dyfais gyfrifiadurol ychwanegol a ddarperir gan y Tŷ. Mae aelodau hefyd yn cael un argraffydd amlswyddogaethol ar gyfer pob swyddfa etholaethol swyddogol y codir tâl ar ei gyfer yn erbyn cyllideb ganolog Gweinyddiaeth y Tŷ.

### Treuliau hysbysebu

---

Gellir defnyddio 20 y cant o Gyllideb Swyddfa Aelod ar dreuliau hysbysebu, at ddiben cyfathrebu ag etholwyr. Mae rhaid i hysbysebion o'r fath gefnogi un o'r dibenion a ganlyn:

- Darparu lleoliad swyddfa a gwybodaeth gyswllt yr Aelod
- Disgrifio'r gwasanaethau y mae Aelod yn eu darparu i etholwyr
- Cyhoeddi cyfarfodydd i ddod sy'n ymwneud â chyflawni swyddogaethau etholwol yr Aelod
- Cefnogi materion eraill ynghylch swyddogaethau seneddol yr Aelod megis cyhoeddi barn bleidiol neu ddatganiadau eiriolaeth

### Adrodd ac atebolrwydd

---

Mae rhaid i Aelodau adolygu eu hadroddiadau ariannol yn rheolaidd a thynnu sylw at wallau i sicrhau cywirdeb a dilysrwydd y data. Mae treuliau aelodau'n destun datgeliad cyhoeddus, ac maent ar gael bob chwarter.

## **Senedd Awstralia**

*Y System Etholiadol: Etholaethau un aelod senl yn defnyddio system y bleidlais amgen*

O dan y Ddeddf Adnoddau Busnes Seneddol, darperir ystod o adnoddau cyhoeddus i aelodau Senedd Awstralia, gan gynnwys<sup>37</sup>:

---

<sup>37</sup> Canllaw Cynefino i Seneddwy'r Ffederal, y Seithfed Senedd a Deugain, Mehefin 2022  
<https://maps.finance.gov.au/sites/default/files/2022-07/Parliamentarian%20Induction%20Guide%20-%20eVersion%2021%20June%2022.pdf>

---

- swyddfa/swyddfeydd etholaethol a chyfarpar, ac os yw'n gymwys, ad-daliad cyflog deiliad swydd a swyddfa ategol
- Cyllideb swyddfa, i'w defnyddio i hawlio ystod eang o dreuliau swyddfa
- Gwasanaethau COMCAR (gwasanaethau car gyda gyrwyr)
- Cerbyd neu gerbydau preifat

Mae rhaid i dreuliau gwaith a hawlir fod at ddiben pennaf busnes seneddol, a ddiffinnir fel dyletswyddau seneddol, etholaethol, gwleidyddol neu swyddfa yn y Ddeddf Adnoddau Busnes Seneddol ac a benderfynir gan y Gweinidog Gwladol Arbennig.<sup>38</sup>

### Swyddfeydd etholaethol

---

Darperir swyddfeydd etholaethol i bob aelod o Dŷ'r Cynrychiolwyr, ond cânt eu prydlesu, eu dodrefnu, eu cyfarparu a'u cynnal gan Wasanaethau Gweinidogol a Seneddol a'u darparwyr dan gontract.

Gan ddibynnu ar faint yr etholaeth, gellir dyrannu rhwng un a thair swyddfa i aelod<sup>39</sup>:

- Dyrennir un swyddfa ar gyfer etholaeth llai na 25,000km<sup>2</sup>
- Dyrennir hyd at ddwy swyddfa ar gyfer etholaeth rhwng 25,000km<sup>2</sup> a 350,000km<sup>2</sup>
- Dyrennir hyd at dair swyddfa ar gyfer etholaeth dros 350,000km<sup>2</sup>

Gall rhai aelodau hefyd fod yn gymwys i hawlio ad-daliad costau un swyddfa ategol ar brydles breifat. Gellir hawlio costau mewn perthynas â phrydlesu, gweithredu, cynnal, sefydlu a gadael swyddfa o'r fath<sup>40</sup>. Yn gyffredinol, mae swyddfeydd ategol ar gyfer etholaethau sydd o leiaf 5,000km<sup>2</sup>.

Lle y mae swyddfa etholaethol sefydledig, caiff ei dyrannu iddynt; mae gan bob swyddfa etholaethol ddyluniad a gwaith gosod safonol.<sup>41</sup> Os nad oes swyddfa ar gael, bydd Rheolwr

---

<sup>38</sup> Ibid.

<sup>39</sup> <https://maps.finance.gov.au/offices-resources-and-budgets/office-management-property/office-types-and-office-resources> [Fel ar 19.01.24]

<sup>40</sup> Ibid.

<sup>41</sup> *Canllaw Cynefino i Seneddwyr Ffederal, y Seithfed Senedd a Deugain*, Mehefin 2022

---

Gladwriaeth neu Dirioogaeth aelod yn nodi opsiynau addas ac yn trefnu'r brydles a'r gwaith gosod. Mae sefydlu swyddfa newydd yn gofyn cymeradwyaeth y Gweinidog Gwladol Arbennig.

At hynny, Gwasanaethau Gweinidogol a Seneddol sy'n rheoli arwyddion swyddfa ac yn talu amdanynt, gan gynnwys dewis maint, math a nifer yr arwyddion.

### Darpariaethau i ddeiliaid swyddi ychwanegol

---

Rhoddir swyddfa i aelodau sy'n Weinidog (ond nid Ysgrifennydd Seneddol), Llywydd, deiliad uwch-swydd sy'n aelod o'r Wrthblaid, neu'n arweinydd plaid leiafrifol y Gymanwlad, fel y penderfynir gan y Gweinidog, ar gyfer dyletswyddau swyddogol. Ni ddylid defnyddio'r swyddfa at ddiben masnachol.

Yn gyffredinol, mae'r swyddfa hon yn ychwanegol at swyddfa etholaethol, ond ar gais gellir trefnu swyddfa Weinidogol/etholaethol gyfunol neu swyddfa deiliad swydd/etholaethol gyfunol. Pan na fo swyddfeydd wedi'u cyfuno, bydd swyddfeydd fel rhai Gweinidog neu ddeiliad swydd:

- fel arfer yn Swyddfeydd Senedd y Gymanwlad yn y wladwriaeth neu'r diriogaeth lle rydych yn byw, ond gall fod mewn swyddfa arall yn Senedd y Gymanwlad
- ar wahân yn rhywle arall, fel arfer yn eich prifddinas.

### Cyllideb Treuliau Swyddfa

---

Mae aelodau hefyd yn cael cyllideb treuliau swyddfa. Ar gyfer 2023-24, roedd hyn yn cyfateb i \$160,841.76 ynghyd â \$1.99 ar gyfer pob pleidleisiwr cofrestredig yn etholaeth yr aelod. Mae'r gyllideb flynyddol hon yn amodol ar fynegeio yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr bob blwyddyn.

Mae'r rhestr o wariant cymwys y gellir ei hawlio yn erbyn y gyllideb hon yn eithaf sylweddol, ac wedi'i nodi yn Rheoliadau Adnoddau Busnes Seneddol 2017. Dyma hwy<sup>42</sup>:

- Argraffu (gyda therfyn ar ansawdd y papur)
- Cynhyrchu deunydd electronig

---

<sup>42</sup> Rheoliadau Adnoddau Busnes Seneddol 2017: <https://www.legislation.gov.au/F2017L01512/latest/text> [Fel ar 09.01.24]

- Cynhyrchu poster sain
- Sefydlu a chynnal gwefannau
- Argraffu a dosbarthu ceisiadau pleidleisiau drwy'r post
- Deunydd ysgrifennu a chyflenwadau swyddfa
- Cyfarpar swyddfa bychan
- Ategolion ar gyfer TGCh
- Meddalwedd a gwasanaethau cwmwl
- Cyhoeddiadau prynu
- Costau cludo
- Arwyddion symudol
- Cynnal cyfarfodydd rhithwir neuadd y dref drwy gyfathrebiad electronig
- Cynnal arolygon ffôn ymateb llais rhyngweithiol
- Gwasanaethau darlledu ac arolygon Gwasanaeth Neges Fer
- TGCh a gwasanaethau a ddarperir gan yr Adran Gwasanaethau Seneddol
- Gyda chymeradwyaeth y Gweinidog adnoddau neu dreuliau eraill sy'n rhesymol ofynnol ar gyfer cynnal busnes seneddol yr aelod
- Mân ffioedd a thaliadau sy'n gysylltiedig â darparu adnoddau

Ni chaniateir gwasanaethau ymgynghori a marchnata cyfryngau cymdeithasol, ac ni chaniateir treuliau datblygu strategaeth cyfathrebu neu ymgysylltu.<sup>43</sup>

---

<sup>43</sup> <https://maps.finance.gov.au/offices-resources-and-budgets/office-expenses-budget> [Fel ar 19.01.24]

---

## Adrodd ac atebolrwydd<sup>44</sup>

---

Mae'r rhan fwyaf o dreuliau gwaith yn cael eu hawlio ar sail blwyddyn ariannol. Aelodau sy'n gyfrifol am reoli gwariant o fewn eu terfynau cyllidebol. Mae'n ofynnol i aelodau ardystio'n bersonol bod hawliadau am dreuliau gwaith, lwfansau neu adnoddau cyhoeddus yn cydymffurfio â'r Ddeddf Adnoddau Busnes Seneddol.

## **Senedd Victoria, Awstralia**

*Y System Etholiadol: Mae pleidleiswyr yn ethol un aelod seneddol i'w cynrychioli yn y tŷ isaf (Cynulliad Deddfwriaethol) ar draws 88 o ardaloedd etholiadol drwy ddefnyddio pleidleisio ffafraethol*

Mae aelodau seneddol Senedd Victoria yn cael swyddfeydd etholaethol a chyllideb Etholaethol a Chyfathrebu i dalu costau gweithredu a chynnal a chadw eu swyddfa etholaethol a chyfathrebu a chyfathrebu â'u hetholwyr mewn perthynas â chyflawni eu dyletswyddau cyhoeddus.<sup>45</sup>

Mae'r aelodau'n cael **swyddfa etholaethol** sydd wedi'i gosod i safon benodol. Y senedd sy'n talu am waith cynnal a chadw cyfarpar swyddfa safonol.

## Cyllideb Swyddfa Etholaethol a Chyfathrebu

---

Mae'r Gyllideb Swyddfa Etholaethol a Chyfathrebu yn cael ei chyfrifo ar sail nifer y pleidleiswyr. Ceir gwerth y Gyllideb Swyddfa Etholaethol a Chyfathrebu drwy ychwanegu<sup>46</sup>:

- Cyfanswm y pleidleiswyr sydd wedi cofrestru yn Victoria, wedi'i rannu ag 88 a'i luosi â \$1.03 (mae 88 o ranbarthau etholiadol)
- Cyfanswm y pleidleiswyr sydd wedi cofrestru yn ardal etholiadol yr Aelod wedi'i luosi â \$1.36

---

<sup>44</sup> Canllaw Cynefino i Seneddwy'r Ffederal, y Seithfed Senedd a Deugain, Mehefin 2022

<sup>45</sup> Tribiwnlys Taliadau Annibynnol Victoria Canllawiau Rhif 01/2023 Aelodau Seneddol (Victoria)

<https://content.vic.gov.au/sites/default/files/2023-06/Members-of-Parliament-%28Victoria%29-Guidelines-No.-01-2023.pdf>

<sup>46</sup> Tribiwnlys Taliadau Annibynnol Victoria Penderfyniad Rhif 01/2023 Aelodau Seneddol (Victoria)

<https://content.vic.gov.au/sites/default/files/2023-06/Members-of-Parliament-%28Victoria%29-Determination-No.-01-2023.pdf> [Fel ar 30.01.24]

---

Mae rhaid i'r defnydd o'r gyllideb fod yn gyson â'r rhwymedigaethau cyffredinol fel y nodir mewn deddfwriaeth, sy'n cynnwys gwerth am arian, diben pennaf cyflawni dyletswyddau cyhoeddus<sup>47</sup> a dibenion cyfrifol a dilys.<sup>48</sup> Gwaherddir unrhyw weithgaredd gwleidyddol. Mae aelodau'n gyfrifol am sicrhau nad yw eu gwariant yn fwy na'r uchafswm a nodwyd yn y Penderfyniad a gallant gario hyd at 50 y cant o'u dyraniad i'r flwyddyn ariannol nesaf.<sup>49</sup>

Gellir defnyddio'r Gyllideb Swyddfa Etholaethol a Chyfathrebu ar y **costau gweithredu a chynnal a chadw** a ganlyn ar gyfer swyddfa etholaethol<sup>50</sup>:

- Treuliau swyddogion etholaethol ac argostau cysylltiedig (mae hyn yn cynnwys cyflogau, gwahaniaeth sylweddol i'n model ni)
- Treuliau parod rhesymol i swyddogion etholaethol
- Mae rhaid i feddalwedd gyfrifiadurol a systemau TGCh (unrhyw feddalwedd i'w defnyddio ar gyfarpar a ddarperir gan y Senedd neu ar rwydwaith y Senedd, gael cymeradwyaeth gan yr Adran Gwasanaethau Seneddol).
- Prynu a chynnal a chadw cyfarpar amrywiol ychwanegol nad yw wedi'i gynnwys yn y gwaith gosod swyddfa etholaethol safonol.
- Glanhau swyddfa
- Argraffu seneddol heb ei ddarparu fel arall gan y Senedd
- Llungopiwr a deunyddiau traul argraffu, taliadau llungopiwr
- Telathrebu
- Deunydd ysgrifennu
- Costau diogelwch
- Yswiriant

---

<sup>47</sup> Diffinnir dyletswyddau cyhoeddus yn y Canllawiau fel rhai sy'n cynnwys busnes pwyllgorau, busnes etholaethol, busnes gweinidogol a busnes seneddol.

<sup>48</sup> Tribiwnlys Taliadau Annibynnol Victoria *Canllawiau Rhif 01/2023 Aelodau Seneddol (Victoria)*

<sup>49</sup> Ibid.

<sup>50</sup> Ibid.

---



- Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a gyflwynwyd gan aelod fel rhan o waith achos
- Hyfforddiant ychwanegol y tu hwnt i'r hyn a ddarperir gan y senedd
- Treuliau sy'n gysylltiedig â chymryd rhan yn y Rhaglen Interniaeth Seneddol
- Treuliau parod rhesymol myfyriwr addysg uwchradd neu drydyddol sy'n ymgymryd â phrofiad gwaith (wedi'i gapio ar \$25 y dydd)

Mae **costau cyfathrebu** a ganiateir yn cynnwys<sup>51</sup>:

- Deunyddiau wedi'u hargraffu ac electronig
- Costau llogi lleoliad gydag etholwyr yr Aelod
- Gwefan swyddogol yr Aelod
- Darparwyr gwasanaethau arbenigol i helpu gyda chyhoeddi a throsglwyddo negeseuon a ganiateir ar yr amod nad yw hyn yn datblygu cynnwys neu'n marchnata gwasanaethau'n ehangach.
- Eitemau hyrwyddo

Mae rhaid i ddeunyddiau cyfathrebu gydymffurfio â gofynion awduraeth a nodi, a all gynnwys logo a/neu enw plaid ond mae rhaid i'r defnydd o hyn gydymffurfio â gwaharddiadau ar weithgarwch gwleidyddol. Diffinnir cyfathrebu a fyddai'n cael ei ystyried yn weithgaredd gwleidyddol fel hel pleidleisiau; cyfarwyddo sut y dylai person bleidleisio drwy hyrwyddo neu wrthwynebu ethol ymgeisydd mewn etholiad, plaid wleidyddol gofrestredig neu Aelod; rhoi cyfarwyddiadau ar sut i lenwi papur pleidleisio; gweithgareddau sy'n gysylltiedig â dethol ymlaen llaw; arolygon ar gyfer bwriad pleidleisio, yr arweinydd a ffefrir neu'r blaid wleidyddol a ffefrir; cyfleu gwybodaeth ddifriol am Aelod, ymgeisydd neu blaid wleidyddol; gweithgareddau sy'n gysylltiedig â drafftio aelodau i blaid wleidyddol; gweithgareddau gweinyddol i gefnogi neu dyfu plaid wleidyddol; gofyn am roddion, hysbysebu lincs allanol i ddeunyddiau nad ydynt yn cydymffurfio â'r canllawiau.<sup>52</sup>

---

<sup>51</sup> Ibid.

<sup>52</sup> Ibid.

## **Norwy, Denmarc, Sweden a'r Ffindir**

Gan fod y pedair senedd hyn yn gweithredu gydag etholaethau aml-aelod, cawsant eu hystyried ar gyfer yr adolygiad tystiolaeth hwn. Yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar-lein, nid yw'n ymddangos y gwneir darpariaeth yn benodol ar gyfer swyddfeydd etholaethol a gwaith etholaethol yn yr un o'r deddfwrfeydd hyn. Yn seiliedig ar y deunydd darllen, mae'n ymddangos nad yw'r math o waith etholaethol a ffefrir ar draws y DU yn hanesyddol yn rhan o'r systemau gwleidyddol mewn rhai o'r gwledydd Nordig.<sup>53</sup> Mae hyn yn cael ei gysylltu gan rai â'r systemau etholiadol, sy'n ffafrio pleidiau yn hytrach nag unigolion, a'r traddodiad mewn rhai gwledydd, megis y Ffindir, i Aelodau Seneddol hefyd wasanaethu ar gynghorau tref.<sup>54</sup>

---

<sup>53</sup> D. Arter a T. Raunio (2017) *Concluding remarks: Constituency Service or Constituency Effort, Representation*, Tachwedd, 2017 / T. Raunio a T. Ruotsalainen (2018) *Exploring the Most Likely Case for Constituency Service: Finnish MPs and the Change towards Personalised Representation*, Representation, 54:1, 37-53

<sup>54</sup> Ibid.

---

## 5. Casgliad

Mewn llawer o systemau gwleidyddol ledled y byd, mae gwaith etholaethol yn rhan gydnabyddedig o waith seneddwr, ac eithrio rhai o'r gwledydd Nordig lle y mae systemau etholiadol wedi canolbwyntio fwy ar bleidiau nag unigolion. Mae cefnogaeth ariannol i dalu costau cynnal swyddfa etholaethol ac i ymgysylltu ag etholwyr felly yn nodwedd gyffredin yn yr enghreifftiau a ystyriwyd ar gyfer y papur hwn.

Mewn nifer o'r enghreifftiau a gynhwyswyd, mae'r costau hyn yn rhan o un gyllideb. Mewn eraill, rhennir cyllidebau costau swyddfa ac ymgysylltu ac mewn eraill (Awstria a'r Almaen), mae Aelodau Seneddol yn cael un lwfans i dalu'r holl gostau y maent yn eu hysgwyddo drwy eu rôl seneddol.

O ddiddordeb arbennig yng nghyd-destun diwygio'r Senedd yw sut y mae ffactorau fel etholaethau aml-aelod neu faint daearyddol etholaeth yn llywio cyllidebau swyddfa etholaethol ac ymgysylltu. O'r enghreifftiau a adolygwyd, nid yw'n ymddangos bod cwmpas, graddfa a model y cymorth hwn yn amrywio'n sylweddol i fodolau'r DU oherwydd etholaethau aml-aelod yn unig. Fodd bynnag, mae nifer o'r deddfwrfeydd a adolygwyd yn cynnwys ystyried maint daearyddol a/neu nifer y pleidleiswyr cofrestredig wrth gyfrifo gwerth y cymorth a ddarperir i aelodau. Gall hyn olygu bod aelodau'n gallu cael mwy nag un swyddfa etholaethol, neu gyllideb uwch ar gael iddynt.

Mae rhai gwahaniaethau nodedig eraill rhwng y deddfwrfeydd a adolygwyd yn cynnwys y canlynol:

- Cydbwysedd y cymorth rhwng cymorth yr aelodau eu hunain a chymorth a ddarperir yn uniongyrchol gan wasanaethau seneddol. Ar un pen o'r sbectrwm, ceir enghreifftiau lle y mae swyddfeydd yn cael eu prydlesu a'u cynnal gan wasanaethau seneddol, ar y pen arall, ceir enghreifftiau lle y mae aelodau'n bennaf cyfrifol am bob elfen o brydlesu a chynnal a chadw swyddfa.
- Lefel yr amod rheoli a safoni a ddisgwylir neu sy'n ofynnol o swyddfeydd. Mae rhai naill ai'n darparu gwaith gosod safonol neu'n nodi'n fanwl yr hyn y mae rhaid i swyddfa ei gynnwys. Mae'n ymddangos bod modelau eraill yn gadael llawer o hyn i grebwyll yr aelod. Mae'r Senedd yn y categori olaf.
- Lefel yr amodau rheoli a gymhwysir i weithgarwch cyfathrebu ac ymgysylltu. Mae rhai enghreifftiau'n cynnwys rhestrau manwl o weithgarwch a ganiateir, gyda chyfyngiadau llym ar y math o weithgaredd y caiff aelodau hawlio amdano. Mae eraill yn darparu disgrifiad mwy cryno o'r hyn a ganiateir neu set o egwyddorion ac yn cyfarwyddo

aelodau i ddefnyddio eu crebwyll ynghylch a yw gweithgaredd yn cydymffurfio. Mae'r Senedd ymhlith yr enghreifftiau hyblycach a gynhwyswyd.

- Mae'r Senedd yn wahanol iawn i'r holl enghreifftiau eraill gan y gellir defnyddio elfen o'r Gronfa Costau Swyddfa a Chysylltu ag Etholwyr ar weithgarwch ymchwil a gomisiynwyd.
- Mae dulliau o adrodd ac atebolrwydd am wariant yn wahanol iawn ar draws yr enghreifftiau a adolygwyd. Mae'r rhan fwyaf yn gofyn am ryw fath o ddatganiad neu ardystiad gan aelodau bod yr holl wariant wedi bod yn cydymffurfio â rheolau perthnasol. Mae Iwerddon yn cynnwys archwiliad annibynnol o sampl o aelodau bob blwyddyn.
- Mae Awstralia yn gwneud darpariaeth i ddeiliaid swyddi ychwanegol sy'n eu galluogi i gael mynediad i swyddfa yn eu hetholaeth ar gyfer busnes gweinidogol. Er mai dyma'r unig enghraifft i gynnwys darpariaethau ychwanegol i ddeiliaid swyddi, gall fod o ddiddordeb yng nghyd-destun Senedd hybrid.

## 6. Atodiad A: Cyllid Cymorth Aelod Seland Newydd 2023-2025

	Is-ddyraniad staff			Is-ddyraniad heblaw staff			Is-ddyraniad cyffredinol		
	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3	Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3
Aelod etholaethol mawr nad yw'n Weinidog	\$339,438	\$349,625	\$360,132	\$96,647	\$96,647	\$96,647	\$48,454	\$49,586	\$50,753
Aelod etholaethol mawr sy'n Weinidog	\$261,308	\$267,150	\$277,238	\$95,360	\$95,360	\$95,360	\$39,630	\$40,501	\$41,400
Aelod etholaethol nad yw'n Weinidog	\$255,591	\$263,262	\$271,172	\$72,000	\$72,000	\$72,000	\$36,399	\$37,251	\$38,130
Aelod etholaethol sy'n Weinidog	\$177,460	\$182,787	\$188,278	\$70,713	\$70,713	\$70,713	\$27,575	\$28,167	\$28,777

Cymorth Swyddfa a Chyfathrebu: Cymhariaeth ryngwladol

Aelod rhestr nad yw'n Weinidog	\$171,744	\$176,899	\$182,212	\$45,464	\$45,464	\$45,464	\$24,134	\$24,707	\$25,297
Aelod rhestr sy'n Weinidog	\$93,613	\$96,425	\$99,317	\$44,177	\$44,177	\$44,177	\$15,310	\$15,622	\$15,944